# Gwobrau Cynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru 2024

## Materion Ymchwil

## Canllawiau cyffredinol

Mae Gwobrau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru 2024 yn agored i **bob ymchwilydd iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a'r timau ymchwil cysylltiedig ehangach.**

I gymryd rhan yn y gwobrau, cwblhewch a chyflwynwch y ffurflen gais, gan ddefnyddio'r canllawiau isod.

Rhaid derbyn ceisiadau erbyn **17:00 ar 15 Gorffennaf 2024.**

Bydd panel o feirniaid yn penderfynu ar enillydd pob categori a bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi yng nghynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar **10 Hydref 2024.**

Bydd enillydd pob categori yn derbyn cyllid o hyd at £250 i fynychu cwrs hyfforddi, cynhadledd, gweithdy neu ddigwyddiad tebyg i ddatblygu maes o'u sgiliau ymchwil.

Bydd y cynnig hwn ond ar gael ar gyfer hawliadau a gyflwynwyd i ni cyn 7 Mawrth 2025. Ni fyddwn yn gallu prosesu hawliadau ar ôl y dyddiad hwn oherwydd diwedd y flwyddyn ariannol.

Trwy gyflwyno cais am ddyfarniad, rydych yn cytuno i gofrestru ar gyfer cynhadledd

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a mynychu neu enwebu dirprwy. Am fwy o wybodaeth, ewch i'r dudalen gynhadledd ar ein gwefan.

### Gwobr Effaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r wobr hon yn cydnabod y gwahaniaeth y mae ymchwil yng Nghymru yn ei wneud i fywydau bob dydd pobl a'r gwahaniaeth y gall pobl ei wneud i'r ymchwil honno.

Bydd y panel beirniadu yn chwilio am enghreifftiau o werth gwirioneddol i'r cyhoedd a chleifion, a/neu effaith ar y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys os yw'n briodol, bod cynaliadwyedd ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol wedi'u hystyried.

I fod yn gymwys rhaid i chi ddweud wrthym am brosiect a oedd naill ai'n weithredol neu a gwblhawyd yn 2023-24 neu a ddangosodd effaith yn ystod y cyfnod hwn.

I ymgeisio, bydd angen i chi gwblhau a chyflwyno'r ffurflen gais ar ein gwefan gan gynnwys crynodeb 250 gair (uchafswm) o'ch astudiaeth ymchwil a darparu fideo 60 eiliad yn cyfleu sut mae eich ymchwil wedi cael effaith neu sut y bydd yn cael effaith

Rhaid i'ch cais ysgrifenedig gynnwys:

- Roedd y pwnc - pam ei fod yn bwysig, beth oedd angen yr ymchwil neu'r bwlch gwybodaeth, a oedd aelodau o'r cyhoedd yn rhan o'r dewis?
- Yr ymchwil - pwy wnaeth hynny, sut y daeth i fodolaeth, pwy a'i hariannodd, pwy oedd yn rhan ohono.
- Yr effaith – sut mae'r ymchwil wedi cael ei defnyddio (neu y gellid ei defnyddio) i newid polisi/ymarfer a gwella iechyd a gofal a/neu wella effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, neu ariannol o'i gymharu ag arfer safonol.
- Cynnwys y Cyhoedd – sut mae cynnwys y cyhoedd yn gynhwysol (cleifion, gofalwyr, defnyddwyr gwasanaeth ac ati) wedi cael effaith ar eich ymchwil.

Rhaid i'ch cyflwyniad fideo fod hyd at 60 eiliad a gellir ei ffilmio ar ffôn symudol neu drwy Teams, a rhaid cyfathrebu'n glir sut mae eich ymchwil wedi cael neu y bydd yn cael effaith ac ar bwy neu beth.

Gweler cyfarwyddiadau isod ar sut i ffilmio a chyflwyno eich fideo.

Os oes angen unrhyw help arnoch i ffilmio neu lanlwytho eich fideo, cysylltwch ag aelod o'r tîm a byddant yn gallu eich helpu.

Efallai y bydd eich fideo yn cael ei rannu ar sianeli cyfathrebu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan gynnwys ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol, i hyrwyddo'r gynhadledd neu weithgareddau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru eraill.

## Gwobr Seren Ymchwil y Dyfodol

This Mae'r wobr hon yn cydnabod pobl yng ngham cynnar eu gyrfa ymchwil iechyd neu ofal cymdeithasol sydd eisoes yn gwneud cyfraniad rhagorol i'w maes a/neu yn datblygu fel arweinwyr y dyfodol.

Yng nghyd-destun y wobr hon, diffinnir ymchwilydd gyrfa gynnar fel rhywun sydd ar hyn o bryd yn un o'r camau canlynol:

A. Yn gwneud doethuriaeth;
B. Yn syth ar ôl doethuriaeth;
C. Yn pontio i fod yn ymchwilydd annibynnol

I ymgeisio, bydd angen i chi lenwi a chyflwyno'r ffurflen gais ar ein gwefan gan gynnwys crynodeb 250 gair (uchafswm) o'ch gyrfa ymchwil hyd yn hyn a fideo 60 eiliad (uchafswm) yn cyfleu sut y bydd eich ymchwil yn cael effaith ar bobl Cymru.

**Rhaid** i'ch cais ysgrifenedig gynnwys:

- Pa ymchwil rydych chi'n gweithio arni ar hyn o bryd

Sut mae wedi cyfrannu at greu syniadau, offer, methodolegau neu wybodaeth newydd

- Disgrifiwch sut rydych chi wedi datblygu eraill a chynnal perthynas weithio effeithiol ag eraill.
- Eich cyfraniad i'r gymuned ymchwil ehangach
- Pa gyfraniad rydych chi wedi'i wneud i ymchwil - defnyddwyr a chynulleidfaoedd, a thuag at fudd cymdeithasol ehangach
- Sut rydych chi neu y byddwch chi a'ch gwaith yn cael effaith yng Nghymru a thu hwnt
- Yr hyn yr ydych wedi'i gyflawni hyd yma yn eich gyrfa ymchwil (e.e. prosiect wedi'i gwblhau, darganfyddiad pwysig, gwobr arbennig yn seiliedig ar eich ymchwil, dyfarniad cymrodoriaeth fawreddog)
- Sut mae pobl wedi helpu i lunio eich ymchwil
- Yr hyn rydych yn gobeithio ei gyflawni drwy eich ymchwil yn y dyfodol

Rhaid i'ch cyflwyniad fideo fod hyd at 60 eiliad a gellir ei ffilmio ar ffôn symudol neu drwy Teams, a rhaid cyfathrebu'n glir sut y bydd eich ymchwil yn cael effaith yng Nghymru a thu hwnt.

Gweler cyfarwyddiadau isod ar sut i ffilmio a chyflwyno eich fideo.

Os oes angen unrhyw help arnoch i ffilmio neu lanlwytho eich fideo, cysylltwch ag aelod o'r tîm a byddant yn gallu eich helpu.

Efallai y bydd eich fideo yn cael ei rannu ar sianeli cyfathrebu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan gynnwys ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol, i hyrwyddo'r gynhadledd neu weithgareddau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru eraill.

## Gwobr Cynnwys y Cyhoedd

Mae'r wobr hon yn cydnabod y defnydd gorau posibl o gynnwys y cyhoedd mewn astudiaeth ymchwil iechyd neu ofal cymdeithasol, gan ddefnyddio Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd fel mesur.

Bydd y panel beirniadu yn chwilio am enghreifftiau lle mae aelodau o'r cyhoedd yn cymryd rhan drwy gydol y broses ymchwil - o ddechrau'r syniad ymchwil hyd at rannu'r canlyniadau a'r canfyddiadau.

I fod yn gymwys mae'n rhaid i chi allu dweud wrthym am brosiect a oedd naill ai'n weithredol neu a gwblhawyd yn 2023-24.

I ymgeisio, bydd angen i chi lenwi a chyflwyno'r ffurflen gais ar ein gwefan an gynnwys crynodeb 600 gair (uchafswm) o gynnwys y cyhoedd a fideo 60 eiliad (uchafswm) yn cyfleu sut mae cynnwys y cyhoedd wedi effeithio ar yr ymchwil a'r aelodau o'r cyhoedd dan sylw.

Mae'n rhaid iddo gynnwys:

- Disgrifiad o sut y gwnaeth Safonau Cynnwys y Cyhoedd y DU lywio'r ffordd yr oedd cynnwys y cyhoedd yn cael ei gynllunio a'i reoli.
- Faint o bobl wnaethoch chi eu cynnwys a pha brofiadau bywyd oedd yn berthnasol i'r ymchwil.
- Sut roedd aelodau o'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn ffyrdd ystyrlon a pherthnasol, gan gynnwys y tasgau, y cyfarfodydd a'r gweithgareddau y gofynnwyd i bobl eu gwneud.
- Tystiolaeth o'r effaith a'r gwahaniaeth y mae cynnwys y cyhoedd yn ei wneud i'r astudiaeth ymchwil ac i aelodau'r cyhoedd dan sylw.

Rhaid i'ch cyflwyniad fideo fod hyd at 60 eiliad a gellir ei ffilmio ar ffôn symudol neu drwy Teams, a rhaid iddynt gyfathrebu'n glir sut mae cynnwys y cyhoedd wedi effeithio ar yr ymchwil a'r cyhoedd sy'n cymryd rhan.

Gweler cyfarwyddiadau isod ar sut i ffilmio a chyflwyno eich fideo.

Os oes angen unrhyw help arnoch i ffilmio neu lanlwytho eich fideo, cysylltwch ag aelod o'r tîm a byddant yn gallu eich helpu.

Efallai y bydd eich fideo yn cael ei rannu ar sianeli cyfathrebu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan gynnwys ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol, i hyrwyddo'r gynhadledd neu weithgareddau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru eraill.

### Gwobr Arloesi mewn Ymarfer

Mae'r wobr hon yn cydnabod cyflawniadau unigolion neu dimau yn eu maes ymarfer.

Bydd y panel beirniadu yn chwilio am enghreifftiau o werth go iawn lle mae unigolion neu dimau yng Nghymru wedi bod yn arloesol mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol a bod hyn wedi gwneud neu y bydd yn gwneud gwahaniaeth mewn ymarfer.

Gall hyn fod ar unrhyw gam o ran datblygu, darparu neu ledaenu/gweithredu ymchwil neu ymgorffori ymchwil o fewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

I fod yn gymwys, rhaid i chi ddweud wrthym am enghraifft a ddigwyddodd yn ystod 2023-24.

I gael mynediad bydd angen i chi lenwi a chyflwyno'r ffurflen gais ar ein gwefan gan gynnwys crynodeb 250 gair (uchafswm) a fideo 60 eiliad (uchafswm) sy'n cyfleu sut mae eich arloesedd neu y bydd yn gwneud gwahaniaeth i bobl sy'n byw yng Nghymru.

Rhaid i'ch cais ysgrifenedig gynnwys:

- Y rôl(au) – Pa rolau oedd yn rhan o'r gwaith, a oedden nhw'n rolau proffesiynol a/neu'n lleyg?

- Disgrifiwch yr ymarfer neu'r datblygiad arloesol.

- Disgrifiwch y gwahaniaeth y mae hyn wedi'i wneud, neu y bydd yn ei wneud, yn y maes ymarfer perthnasol.

- Beth neu bwy fydd yn elwa o'r newidiadau?

- Pa mor gyffredinol yw hyn i leoliadau ymarfer eraill?

Rhaid i'ch cyflwyniad fideo fod hyd at 60 eiliad a gellir ei ffilmio ar ffôn symudol neu drwy Teams, a rhaid cyfathrebu'n glir beth yw'r arloesedd a'r gwahaniaeth y bydd yn yn ei wneud i ymarfer.

Gweler cyfarwyddiadau isod ar sut i ffilmio a chyflwyno eich fideo
yma,

Os oes angen unrhyw help arnoch i ffilmio neu lanlwytho eich fideo, cysylltwch ag aelod o'r tîm a byddant yn gallu eich helpu.

Efallai y bydd eich fideo yn cael ei rannu ar sianeli cyfathrebu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan gynnwys ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol, i hyrwyddo'r gynhadledd neu weithgareddau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru eraill.

## Cyfarwyddiadau ar gyfer recordiadau fideo

Dilynwch yr awgrymiadau hyn ar gyfer recordio fideo:

- Ffilmiwch y fideo ar eich ffôn mewn fformat tirwedd, ar stand i'w dal yn sefydlog os oes gennych un
- Gwnewch yn siŵr y gallwch weld eich hun yn y ffrâm o tua chanol y frest i fyny, a cheisiwch osod eich pen yng nghanol y ffrâm.
- Peidiwch â syllu ar eich nodiadau gormod (mae ychydig bach o edrych ar nodiadau'n iawn)
- Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw beth yn ddamweiniol yn gorchuddio'r meicroffon e.e. eich cês ffôn
- Cyn i chi ddechrau recordio gwiriwch nid oes unrhyw beth yn eich cefndir na ddylai fod yno ac nad oes gormod o sŵn cefndir
- Gadewch ychydig eiliadau o dawelwch ar ddechrau a diwedd y fideo (cyn/ar ôl siarad)
- Wrth siarad, ceisiwch osgoi acronymau/ymadroddion na fydd y cyhoedd yn gyfarwydd â nhw

### Danfon eich fideo

Mae gennych ychydig o opsiynau ar sut i ddanfon eich fideo atom:

1. **Drwy'r WhatsApp** i'n Swyddog Cyfathrebu Digidol, Amy Walters ar 07720248188

2. **Trwy Teams** i'n Swyddog Cyfathrebu Digidol, Amy Walters (amy.walters5@wales.nhs.uk)

3. Os yw eich ffeil fideo yn ddigon bach, gallwch geisio'i ddanfon **drwy e-bost** i

ymchwiliechydagofal@wales.nhs.uk. Byddwch yn ymwybodol mai maint y ffeil uchaf y gellir ei anfon gan ddefnyddio Outlook yw 20MB.

Unwaith y byddwch wedi danfon eich fideo, byddwch yn derbyn neges cadarnhau gennym i gydnabod bod y ffeil wedi cael ei derbyn a'i lawrlwytho. Os nad ydych yn derbyn neges gadarnhau, e-bostiwch ymchwiliechydagofal@wales.nhs.uk

Os oes angen unrhyw help arnoch i ffilmio neu uwchlwytho eich fideo, cysylltwch ag aelod o'r tîm gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost ymchwiliechydagofal@wales.nhs.uk a byddant yn gallu eich helpu.

**Nodwch, rhaid derbyn pob fideo erbyn y dyddiad cau cyflwyno, sef: 5:00pm ar 16 Awst 2024.**